# Prosiect AilGychwyn: Integreiddio Ffoaduriaid

Caiff y prosiect AilGychwyn: Integreiddio Ffoaduriaid ei ariannu'n rhannol drwy Gronfa Lloches, Ymfudo ac Integreiddio yr Undeb Ewropeaidd. Gwneud rheoli llif ymfudo'n fwy effeithiol ar draws yr Undeb Ewropeaidd.

The ReStart: Refugee Integration project is part-funded through the European Union Asylum Migration Integration Fund. Making management of migration flows more efficient across the European Union.

Ariennir yn Rhannol gan **Lywodraeth Cymru**
Part Funded by **Welsh Government**

## Pwy sy'n ffoadur?

### Beth yw'r gwahaniaeth rhwng ffoadur a cheisiwr lloches?

Ceir dryswch yn aml ynghylch ystyr y termau hyn. Pan fydd rhywun sy'n ceisio lloches yn cyrraedd gwlad, bydd yn gwneud cais am 'statws ffoadur'. Pan wneir y cais, bydd yr unigolyn yn cael ei ystyried yn '**geisiwr lloches**' a bydd yn aros am benderfyniad gan Lywodraeth y DU ynglŷn ag a oes ganddo hawl dilys am ddiogelwch rhyngwladol.

Nid oes penderfyniad wedi'i wneud ynghylch statws ffoadur ceisiwr lloches ac mae'n aros i glywed canlyniad y cais. Ond mae cais '**ffoadur**' wedi'i gymeradwyo ac mae wedi cael statws ffoadur neu fath arall o ddiogelwch.

Mae ffoaduriaid wedi'u gorfodi i adael eu gwledydd oherwydd ofn dealladwy o erlyniad yn sgil eu hil, crefydd, cenedligrwydd, grŵp cymdeithasol, neu farn wleidyddol (Ceir rhagor o wybodaeth am statws ffoadur yn Atodiad A).

### A oes gan ffoaduriaid hawl i weithio?

Nid oes cyfyngiad ar y math o waith y caiff ffoaduriaid ei wneud yn y DU. Mae ganddynt **yr un hawl i gyflogaeth â dinasyddion Prydain**, ac nid ydynt yn gorfod dilyn y system fisa y mae mewnfudwyr yn gorfod ei dilyn. Mae'r caniatâd i weithio yn ddilys, ynghyd â'r Rhif Yswiriant Gwladol, am gyfnod y caniatâd a roddwyd a gallant wneud cais am ganiatâd pellach i aros.

Yn ystod y cyfnod hwn, pan mae cais am ganiatâd pellach yn cael ei ystyried, bydd gan ffoadur yr un hawl i gyflogaeth a hyfforddiant ag o'r blaen, cyn belled ei fod wedi gwneud cais cyn i gyfnod ei ganiatâd presennol ddod i ben. Os ydych yn recriwtio ffoaduriaid sydd wedi gwneud cais am ganiatâd pellach i aros neu os oes apêl yn erbyn penderfyniad ar gais, neu os oes gennych weithwyr yn y sefyllfa hon, dylech lenwi'r ffurflen Gwasanaeth Gwirio Cyflogwyr (ECS).
www.gov.uk/employee-immigration-employment-status

**Pwysig, nodwch:** cyfrifoldeb y cyflogwr yw gwirio bod gan yr unigolyn statws caniatâd i weithio a defnyddio ECS i wirio eu bod wedi gwneud cais am ganiatâd pellach (os oes angen). Gall peidio â gwneud hyn arwain at ddirwy sylweddol, ond mae'n hawdd i'w wneud, fel y nodwyd uchod felly ni ddylai fod yn broblem. Os oes gennych chi unrhyw bryderon am hyn, siaradwch gyda'n Swyddogion Rhanbarthol Ymgysylltu â Chyflogwyr (REEO – gweler Atodiad B i gael rhagor o fanylion).

## Pa hawliau sydd gan ffoaduriaid ac eraill?

| | **Statws Ffoadur (5 mlynedd) neu aduniad teulu** | **Diogelwch dyngarol (5 mlynedd)** | **Caniatâd yn ôl disgresiwn i aros (3 blynedd)** | **Ceisiwr lloches** |
|---|---|---|---|---|
| Hawl i weithio | Caniateir gweithio – dim cyfyngiad ar gyflogaeth | Caniateir gweithio – dim cyfyngiad ar gyflogaeth | Caniateir gweithio – dim cyfyngiad ar gyflogaeth | DIM CANIATÂD I WEITHIO FEL ARFER<br>Oni bai ei fod wedi bod yn byw yn y DU ers dros 1 flwyddyn ac wedi gwneud cais llwyddiannus i'r llywodraeth am Rif Yswiriant Gwladol. Yna bydd wedi'i gyfyngu i wneud cais am swyddi ar restr prinder swyddi'r DU. |
| Mynediad i Brosiect Integreiddio Ffoaduriaid AilGychwyn: | Oes<br>Gallwn gefnogi ffoaduriaid a chyflogwyr i fanteisio ar gyfleoedd gwaith | Oes<br>Gallwn gefnogi'r rheiny â Diogelwch Dyngarol a chyflogwyr i fanteisio ar gyfleoedd gwaith | Nac oes<br>Mae'r prosiect AilGychwyn yn cefnogi'r rheiny â statws ffoadur a Diogelwch Dyngarol yn unig. Ond gall cyflogwyr gynnig cyflogaeth i'r rheiny â chaniatâd yn ôl disgresiwn i aros. | Nac oes<br>Nid yw ceiswyr lloches yn gyffredinol yn gymwys i weithio ac nid ydynt yn gymwys am gymorth o dan y prosiect hwn. |

## Pa ddogfennau sydd gan ffoaduriaid?

Pan fydd person yn cael ei statws ffoadur, bydd y Swyddfa Gartref yn cyflwyno cerdyn a elwir yn Drwydded Breswylio Fiometrig, sy'n dangos y cyfnod y mae'r cerdyn yn ddilys, manylion personol y ffoadur, tystiolaeth o'r hawl i weithio yn y DU, hawl i arian cyhoeddus, a'r math o ddiogelwch y mae ganddo hawl iddo.

Byddant yn cael Rhif Yswiriant Gwladol a'r hawl i wneud cais am Ddogfen Deithio y gellir ei defnyddio fel Pasbort.

Mae gan y Swyddfa Gartref wasanaeth gwirio ar-lein i gyflogwyr ac unigolion sydd eisiau sicrhau bod trwydded breswyl fiometrig yn ddilys. Gellir dod o hyd i'r manylion yn: www.gov.uk/check-biometric-residence-permit

## Enghraifft o Drwydded Breswyl Fiometrig







## Pa mor gymwys yw ffoaduriaid?

Mae llawer o'n cleientiaid wedi cael addysg i lefel uchel iawn yn eu gwlad wreiddiol, yn ogystal â datblygu sgiliau yno. Ond mae diffyg dogfennau a thystiolaeth o gymwysterau weithiau'n eu rhwystro rhag cael mynediad i swyddi sy'n cyd-fynd â'u sgiliau. Mae'r prosiect AilGychwyn yn cynorthwyo ein cleientiaid i geisio cael cydnabod eu cymwysterau presennol ac adnabod cyflogwyr sydd angen y sgiliau sydd ganddynt.

Gall cyfnod o brofiad gwaith gyda chwmni o'r DU sy'n fodlon rhoi geirda wella cyflogadwyedd yr unigolion hyn yn fawr. Bydd cyflogwyr yn aml yn edrych yn llai ffafriol ar ymgeiswyr gyda bwlch mawr yn eu gyrfa, ond os yw cyflogwyr yn deall y rheswm pam bod ein cleientiaid wedi gorfod cymryd seibiant yn eu gyrfa, gall hyn eu helpu wrth iddynt wneud ceisiadau am swyddi yn y dyfodol.

## A oes gan ein cleientiaid sgiliau iaith Saesneg da?

Mae gallu ein cleientiaid yn y Saesneg yn amrywio. Ond mae’r prosiect AilGychwyn yn gweithio’n agos gyda’r rheiny sydd wrthi’n datblygu eu sgiliau iaith Saesneg i sicrhau ein bod yn lleoli’r rhai sy’n barod i weithio. Efallai bod amryw o swyddi yn eich sefydliad a fyddai’n addas i rywun nad yw eto’n gwbl rugl yn y Saesneg, neu sy’n siarad Saesneg yn dda ond sydd angen datblygu ei sgiliau darllen ac ysgrifennu. Integreiddio a dod o hyd i waith mewn cymuned ym Mhrydain yw un o’r ffyrdd gorau y gall ein cleientiaid wella eu sgiliau Saesneg.



# Atodiad A

## Statws Ffoadur

Rhoddir statws ffoadur i berson sydd wedi cael penderfyniad cadarnhaol ar eu cais am loches o dan *Gonfensiwn 1951 y Cenhedloedd Unedig ar Statws Ffoaduriaid* (Y Confensiwn Ffoaduriaid) ac wedi cael hawl i aros yn y DU. Cyfnod o 5 mlynedd fydd hyn ar gyfer statws ffoadur.

## Statws diogelu eraill

Nid yw rhai pobl sy'n ceisio lloches yn cael statws ffoadur, gan nad ydynt yn bodloni diffiniad cyfreithiol ffoadur, ond byddant yn cael cynnig mathau eraill o ddiogelwch os canfyddir nad ydynt yn gallu dychwelyd i'w gwlad eu hunain a'u bod angen diogelwch na all y wlad honno ei gynnig (er enghraifft, oherwydd bod rhyfel yn eu gwlad). Bydd pobl sydd wedi cael Diogelwch Dyngarol neu Ganiatâd yn ôl Disgresiwn i Aros yn cael eu hystyried yn ffoaduriaid, o dan y confensiwn ffoaduriaid, ond bydd ganddynt yr un hawliau â ffoaduriaid ar y cyfan a byddant yn cael gweithio yn y DU. Byddwn yn defnyddio'r term 'ffoadur' i gyfeirio at y rhai sydd wedi cael caniatâd i fyw a gweithio yma naill ai drwy gael Statws Ffoadur, Diogelwch Dyngarol neu Ganiatâd yn ôl Disgresiwn i Aros.

## Diogelwch Dyngarol (rhoddir am gyfnod o 5 mlynedd)

Gellir rhoi Diogelwch Dyngarol i'r bobl hynny nad ydynt yn gymwys am statws ffoadur oherwydd nad oes risg o erlyniad am reswm a nodwyd yn y Confensiwn Ffoaduriaid ond bod angen diogelwch rhyngwladol oherwydd bod rheswm da i gredu y bydd yr unigolyn mewn perygl o niwed difrifol os yw'n dychwelyd i'w wlad wreiddiol. Mae enghreifftiau o'r rhesymau dros hawlio Diogelwch Dyngarol yn cynnwys: y gosb eithaf neu ddienyddiad, dynladdiad anghyfreithlon, trais annetholus (h.y. yn ystod rhyfel) neu ddioddef amodau dyngarol difrifol yn eu gwlad nad yw eu gwladwriaeth yn gallu neu yn fodlon eu hamddiffyn rhagddynt.

Bydd gan berson sy'n cael Diogelwch Dyngarol yr un hawl i arian cyhoeddus ac addysg ac ni fydd unrhyw gyfyngiad ar weithio yng Nghymru. Mae'r hawl i addysg yn wahanol yn Lloegr, yr Alban ac Iwerddon.

## Caniatâd yn ôl Disgresiwn i Aros (rhoddir am gyfnod o hyd at 3 blynedd)

Gellir rhoi Caniatâd yn ôl Disgresiwn i Aros os nad yw'r sawl sy'n gwneud y cais yn gymwys i gael Statws Ffoadur neu Ddiogelwch Dyngarol, ond y byddai ei allgludol yn ôl i'w wlad wreiddiol yn anghyfiawn o lym. Er enghraifft, os oes gennych gyflwr meddygol difrifol neu yng nghyfnodau terfynol salwch angheuol, gall y Swyddfa Gartref benderfynu na ddylech gael eich anfon yn ôl i'ch gwlad wreiddiol os nad oes gofal priodol ar gael ichi yno.

Mewn achosion eraill, os ydych wedi dioddef yn sgil masnachu pobl neu gaethwasiaeth, gallech hefyd gael yr hawl i aros yn y DU, gan eich bod wedi eich cludo yma yn erbyn eich ewyllys. Gelwir hyn yn ganiatâd yn ôl disgresiwn ar ‘sail dosturiol’, ac mae’n golygu y gallech osgoi’r rheolau mewnfudo arferol a fyddai fel arall yn eich atal rhag gallu gwneud cais am ganiatâd i aros. Caniateir i’r bobl hyn weithio heb gyfyngiad a bydd ganddynt hawl i arian cyhoeddus a hawl lawn i addysg yng Nghymru (mae’r hawl i addysg yn wahanol yn Lloegr).

# Atodiad B

## Disgrifiad Swydd Swyddog Rhanbarthol Ymgysylltu â Chyflogwyr

### Diben y Swydd:

Cangen Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru sy'n rheoli prosiect 'AilGychwyn: Integreiddio Ffoaduriaid' a ariennir drwy'r Gronfa ar gyfer Lloches, Mudo ac Integreiddio (AMIF). Cronfa Ewropeaidd yw hon a ariennir drwy'r Swyddfa Gartref.

Mae swyddi Cyswllt Cyflogwyr Rhanbarthol Llywodraeth Cymru yn gweithredu ar draws Cymru, gan gynyddu'r cyfleoedd i ffoaduriaid yn y gweithle. Mae hyn yn cynnwys ceisio cyfleoedd gwaith, lleoliadau gwaith a sesiynau blasu, cyfleoedd gwirfoddoli a hyfforddiant Saesneg yn y gweithle. Bydd y swyddi hyn yn rhai rhanbarthol sy'n gweithio'n agos gyda chyflogwyr ac yn canfod cyfleoedd yn y farchnad swyddi lleol i arddangos rhinweddau ffoaduriaid.

Bydd y swyddi yn gweithio i adnabod cyflogwyr mawr a Busnesau Bach a Chanolig (BBaCh) sy'n gweithio ar draws Cymru gyda'r bwriad o hyrwyddo cyflogi ffoaduriai/lleoliadau gwaith, yn bennaf ym mhob ardal wasgaru (Caerdydd, Abertawe, Casnewydd a Wrecsam). Bydd y swyddi yn rhai rhanbarthol ar draws Cymru (1 yng ngogledd Cymru a 2 ar draws de Cymru) felly bydd angen teithio i'r ardaloedd hyn i weithio gyda chyflogwyr a chymunedau yn y rhanbarthau.

### Tasgau Allweddol:

- Gweithio gyda'r sefydliadau sydd wedi cael contract o dan y prosiect AilGychwyn i ddeall profiadau ffoaduriaid a'r rhwystrau i gyflogaeth.
- Gweithio gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru i gael gwybodaeth am recriwtio yn y farchnad lafur ac ymgysylltu â'r sector preifat.
- Gweithio gyda'r sectorau i ddeall yn llawn y farchnad lafur lleol/rhanbarthol a'r bylchau sgiliau a chyfleoedd i weithio mewn partneriaeth, gan lunio adroddiad am y bylchau a'r cyfleoedd.
- Cysylltu â chyflogwyr lleol yn y rhanbarthau i hyrwyddo buddion y prosiect a darparu cyfleoedd i ffoaduriaid.
- Cysylltu â chyflogwyr mawr yng Nghymru i hyrwyddo manteision cyflogi ffoaduriaid ac ystyried rhoi cyfleoedd i ffoaduriaid yn eu rhaglenni cyflogaeth.
- Cydlynu cyswllt lleol a rhanbarthol rhwng cyflogwyr a phartneriaid eraill yn y prosiect AilGychwyn.
- Trefnu sesiynau rhwydweithio i gyflogwyr i ddod â darpar gyflogwyr ynghyd i wella ymwybyddiaeth.
- Trefnu gweithdai i roi cyfleoedd i ffoaduriaid i gwrdd â darpar gyflogwyr.
- Trefnu lleoliadau gwaith addas i ffoaduriaid gan roi cyfleoedd iddynt ddod o hyd i waith.

- Cysylltu â chyflogwyr i gefnogi cyfleoedd lleoliad gwaith a datblygu pecyn sy'n amlinellu sut i gyflogi ffoaduriaid yn effeithiol.
- Cyfarfod Uwch Reolwyr yn rheolaidd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gysylltu â chyflogwyr a'r sector.
- Gweithio gyda'r Rheolwr Prosiect a'r Swyddog Prosiect i drafod a rhoi gwybod am yr amcanion prosiect sy'n cael eu cyflawni.

Gallwch gysylltu â'n Swyddogion Cyswllt Cyflogwyr Rhanbarthol drwy e-bostio:
ffoaduriaid@llyw.cymru

OGL © Hawlfraint y Goron 2020 WG40603 ISBN digidol 978-1-80038-582-5